# Recriwtio Prif Weithredwr

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

21 Chwefror 2017

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 26 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

*Yn dilyn penodi Manon Antoniazzi, a gyhoeddwyd yn y wasg heddiw, fel Prif Weithredwr a wnewch chi os gwelwch yn dda ryddhau'r wybodaeth ganlynol*

1) *Beth oedd cyfanswm y bobl wnaeth gyflwyno cais am y swydd*
2) *Sawl un wnaeth gais am y swydd o'r canlynol:*
    a. *Llywodraeth Cymru*
    b. *Cynulliad Cymru*
    c. *Unrhyw Awdurdod Lleol*
    d. *Unrhyw Awdurdod Iechyd*
    e. *Y sector preifat*
3) *Sawl ymgeisydd oedd yn siarad Cymraeg*
4) *Sawl ymgeisydd wnaeth gyrraedd y rhestr fer*
5) *Sawl un o'r rhai ar y rhestr fer oedd yn siarad Cymraeg.*
6) *Copïau o CVs yr ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad (Gan ystyried lefel uchel y swydd hon, dylai'r rheini ar y rhestr fer dderbyn ei fod er budd y cyhoedd i fod yn ymwybodol o'u cefndir a'u cymwysterau).*
7) *Cyflog cychwynnol y Prif Weithredwr newydd.*

Mae'r atebion i'ch cwestiynau isod:

1) *Beth oedd cyfanswm y bobl wnaeth gyflwyno cais am y swydd:* 29
2) *Sawl un wnaeth gais am y swydd o'r canlynol:*
    a. Llywodraeth Cymru: 5 neu lai
    b. Cynulliad Cymru: 5 neu lai
    c. Unrhyw Awdurdod Lleol: 5 neu lai
    d. Unrhyw Awdurdod Iechyd: 5 neu lai
    e. Y Sector Preifat: 5 neu lai

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

3) *Sawl ymgeisydd oedd yn siarad Cymraeg:* 10
4) *Sawl ymgeisydd wnaeth gyrraedd y rhestr fer: rhwng 6 a 10.*
5) *Sawl un o'r rhai ar y rhestr fer oedd yn siarad Cymraeg.* 5 neu lai

Mewn perthynas â chwestiynau 2 a. -e, 4 a 5, er ein bod yn dal y wybodaeth a geisir, nid ydym yn gallu ei rhoi i chi oherwydd y niferoedd isel iawn o ymgeiswyr sy'n dod o fewn y categorïau amrywiol. Byddai gwneud hynny'n gyfystyr â thorri'r Ddeddf Diogelu Data 1998. Felly, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gweler yr atodiad am eglurhad llawnach.

Fodd bynnag, mewn ymdrech i ddarparu gwybodaeth ystyrlon ar eich cyfer, tra'n cydymffurfio â'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998, rydym wedi mynegi'r wybodaeth ar ffurf ddienw i sicrhau nad oes modd adnabod unrhyw unigolyn. Yn ogystal, gallwn eich hysbysu bod 12 o ymgeiswyr wedi cyflwyno cais o nifer o sefydliadau sector cyhoeddus ar wahân i'r rhai a restrir yn 2 a. i d.

6) *Copïau o CVs yr ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad:* Er ein bod yn dal CVs yr ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, nid ydym yn gallu rhoi'r wybodaeth honno i chi oherwydd ei bod yn cynnwys data personol at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998. Byddai ei datgelu yn gyfystyr â thorri'r Ddeddf Diogelu Data 1998. Felly, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o'r Ddeddf. Mae manylion pellach am y rhesymeg sydd y tu ôl i'r casgliad hwn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Eto, mewn ymdrech i roi gwybodaeth ddefnyddiol i chi, dyma ddatganiad i'r wasg a gyhoeddwyd ar ôl penodi Manon Antoniazzi.

7) *Cyflog cychwynnol y Prif Weithredwr newydd:* Mae graddfeydd tâl yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan a chyflog cychwynnol y Prif Weithredwr newydd fydd Uwch Fand 1 (Prif Weithredwr) - pwynt 1 £125,170.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Atodiad**

Mae peth o'r wybodaeth a geisir yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Diogelu Data 1998, sef:

> "data which relate to a living individual who can be identified from those data, or from those data and other information which is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller".

Felly, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, lle byddai ei datgelu yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data.  Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data.

Mae'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data, fel y nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 1998 yn nodi:

> "Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless at least one of the conditions in Schedule 2 is met…"

Wrth benderfynu a fyddai datgeliad yn deg, rydym wedi ystyried goblygiadau datgelu'r wybodaeth hon, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw, a'r cydbwysedd i'w daro rhwng hawliau'r unigolion, ein dyletswyddau ac unrhyw fudd dilys mewn perthynas â datgeliad.

Ein casgliad yw y byddai datgelu data personol yn annheg.  Mae'r ffactorau a ystyriwyd yn cynnwys y canlynol.  Gallai rhyddhau manylion am nifer yr unigolion o sefydliadau penodol a gyflwynodd gais arwain at eu hadnabod. Nodwyd bod y broses ymgeisio yn gyfrinachol ac rydym o'r farn y dylai pob ymgeisydd yn rhesymol allu disgwyl i gyfrinachedd proses benodi gael ei gynnal yn ystod y broses a'r tu hwnt iddi. Byddai canlyniadau datgelu manylion adnabod y rhai a wnaeth gais am y swydd (ac eithrio'r ymgeisydd llwyddiannus) yn sylweddol a gallai effeithio ar eu cyflogaeth  bresennol neu unrhyw gyflogaeth yn y dyfodol.

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn CVs ymgeiswyr yn cynnwys manylion am hanes gyrfa, cymwysterau, addysg, a gwybodaeth bersonol.  Darparwyd yr wybodaeth yng nghyd-destun proses benodi gyfrinachol ac nid oedd unrhyw

fwriad (boed ar ran Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r ymgeiswyr) y dylai'r wybodaeth gael ei rhannu y tu hwnt i'r broses ac yn sicr nid i'w gwneud yn gyhoeddus. Yn wir, mae darparu CV yn cynnwys disgwyliad cryf yn erbyn datgelu gan fod ceisiadau yn cael eu trin mewn modd cyfrinachol. Byddai datgelu gwybodaeth o'r fath yn debygol o beri gofid a gallai effeithio ar gyflogaeth bresennol unigolion neu eu cyflogaeth yn y dyfodol.

Er gwaethaf ein barn ynghylch sicrhau tegwch, aethom ymlaen i drafod Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 1998. Nid yw unrhyw un o'r amodau yn Atodlen 2 yn berthnasol, heblaw paragraff 6, sy'n caniatáu prosesu gwybodaeth bersonol fel a ganlyn:

> "The processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the data controller or by the third party or parties to whom the data are disclosed, except where the processing is unwarranted in any particular case by reason of prejudice to the rights and freedoms or legitimate interests of the data subject."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- Rhaid bod datgelu'r wybodaeth o fudd cyhoeddus dilys;
- Rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; a
- Rhaid sicrhau nad yw'r datgeliad yn achosi ymyrraeth ddiangen i hawliau, rhyddid a buddiannau cyfreithlon y person.

Mae budd cyhoeddus dilys mewn tryloywder mewn termau cyffredinol ac o ran gwybod bod penodiad ar lefel uwch o'r fath wedi creu lefel benodol o ddiddordeb, fodd bynnag, ni allwn weld unrhyw fudd dilys i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r niferoedd gwirioneddol o unigolion dan sylw nac eu CVs. Felly, ein casgliad yw na fyddai'n bosibl bodloni un o'r amodau yn Atodlen 2.